**Marketing & Communications Officer**

**Taking Flight Theatre**

At Taking Flight, we create bold theatre with Deaf, disabled, non-disabled, and neurodivergent performers. Our productions tour Wales and beyond, reaching both remote locations and traditional venues.

We support emerging disabled talent on and off stage through inclusive training courses and mentoring for those who identify as Deaf, disabled, or neurodivergent.

Taking Flight are also the lead organisation of the Breaking the Box Project. A partnership that is developing a network of inclusive, accessible venues in Wales that are confident & supported in welcoming diverse artists, backstage crew & administrators as well as audiences. The partners are: Taking Flight Theatre, Hynt, Disability Arts Cymru, Carmarthenshire Theatres, Awen Cultural Trust, Pontio and RCT Theatres.

Based in South Wales, we are a community-focused arts charity seeking a creative Marketing and Communications Officer to help raise our profile, boost audience engagement, and share our story across multiple platforms.

## Details:

Responsible to: Executive Director

Working hours: 21 hours per week

Salary: £25,500- £27,000 pro rata

Holiday allowance: 36 days inclusive of Bank Holidays PA [pro rata ]

Other benefits: personal wellbeing fund, hybrid working, flexible hours

## Location:

Taking Flight is based in Cardiff and you can work from our Cardiff office, but there's also the opportunity to work from home/hybrid if preferred. If you can attend a couple of important events each year, remote working is certainly an option.

## Responsibilities:

The Marketing and Communications Officer will handle Taking Flight's marketing and all that comes with it day-to-day. This includes, but isn't limited to:

- Keeping the existing Marketing and Communications Plan updated and making it better, so it fits with the charity's 5-year plan and adapts to any changes.

- Sharing the work that we are doing — including productions, outreach, recruitment, fundraising, charity and arts sector activity — through different media, making sure the voice and brand stay consistent. This also involves creating assets using Canva and other apps.

- Running the charity's socials across multiple platforms — posting, checking engagement, running ads, making new connections online, and reaching out to new audiences.

- Keeping the website fresh with new content, making updates, and advising on redesign or other functionality.

- Working with creative teams, designers, videographers, and photographers to produce marketing materials like images, print flyers, trailers, venue info packs, and press kits for productions.

- Teaming up with venue marketing teams to make sure shows are marketed correctly and reach the right audiences.

- Managing the mailing list, creating regular newsletters and sending out regular updates to stay in touch with supporters and audiences.

- Handling all media relationships — writing and sharing press releases, setting up press nights with venues, arranging previews, reviews, and media coverage. Building good relationships with TV, radio, and print outlets both in Wales and beyond, and engaging with websites and publications for deaf, disabled, and neurodivergent communities.

- Attending company meetings, venue meetings, and meetings with other partners when needed.

- Regularly checking in with your line manager and taking part in the charity's appraisal process.

- Working as part of the team, representing the charity in a positive way.

- Helping evaluate projects, reporting on marketing efforts, and preparing clear, attractive reports to go with project summaries.

- Leading on press and PR, building contacts, and raising the charity's profile both inside and outside the theatre world, especially with deaf/disabled support groups.

- Be ready for some evening or out-of-hours work when necessary.

## Person Specification

Taking Flight is an inclusive employer and actively encourage applicants from marginalised communities. All we ask is that you have;

- A passion for theatre and equality
- Experience in accessible marketing, communications, or a related field—ideally within the arts, charity, or cultural sectors in Wales.
- Excellent written and verbal communication skills, with a creative flair and attention to detail.

- A Degree (Marketing/Theatre/Business Studies/English/Communications/Journalism or similar) or substantial experience in a similar role
- A proven ability to plan, create, and schedule engaging content for social media.
- Competence in producing and editing printed materials using design software (e.g. Canva, Adobe InDesign, or similar).
- Confidence in building relationships with press and media, and are able to write clear, newsworthy press releases.
- IT literacy in particular: MS Office packages (Word/Excel), email, and experience of Metricool and Mailchimp, or similar software
- Strong organisational and time-management skills, and are able to manage multiple projects and deadlines.
- An ability to work both independently and as part of a small, collaborative team.
- Self-sufficient and motivated to work unsupervised.

If you have all our essential skills and can also demonstrate

- Basic photography and/or video editing skills.
- An understanding of and commitment to equality, diversity, and inclusion in the arts.
- An enthusiasm for arts and community engagement.
- Flexible attitude to work, with the ability to handle a variety of tasks simultaneously.
- Any proficiency in British Sign Language or the willingness to learn and develop communication skills is desirable
- Ability to speak Welsh and/or a willingness to develop Welsh language skills is highly desirable.

You may well be the person for us!

## Interested?

If you have any questions about Taking Flight, the role or the organisation, please get in touch in the format that suits you best, including BSL videos or voice notes.

You can send us an email (admin@takingflighttheatre.co.uk) or contact us via WhatsApp on 07593821172

## To apply:

You can send your CV and a cover letter outlining why you would be ideal for the position to admin@takingflighttheatre.co.uk

You can also send us a video of your cover letter and CV in either Welsh, English or BSL.

As a guide, your cover letter should be around two sides of A4.

## Deadline:

Please ensure you get all your details to us by 5pm on 6th October

**Swyddog Marchnata a Chyfathrebu**

**Cwmni Theatr Taking Flight**

Mae cwmni Taking Flight yn creu theatr feiddgar gyda pherfformwyr Byddar, anabl, heb anabledd, a niwroamrywiol. Mae'n cynyrchiadau'n teithio Cymru a thu hwnt, ac yn ymestyn i leoliadau anghysbell yn ogystal â lleoliadau traddodiadol.

Rydym yn cefnogi talent anabl newydd ar y llwyfan ac oddi arno hefyd, gan gynnal cyrsiau hyfforddi cynhwysol a mentora i'r rhai sy'n uniaethu yn Fyddar, anabl, neu niwroamrywiol.

Taking Flight yw'r sefydliad sy'n arwain ar y Prosiect Torri'r Blwch. Partneriaeth yw hyn sy'n datblygu rhwydwaith o leoliadau cynhwysol, hygyrch yng Nghymru sy'n hyderus ac yn derbyn cefnogaeth er mwyn iddynt allu croesawu artistiaid, criw cefn llwyfan a gweinyddwyr amrywiol yn ogystal â chynulleidfaoedd. Y partneriaid yw: Theatr Taking Flight, Hynt, Celfyddydau Anabledd Cymru (DAC), Theatrau Sir Gâr, Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, Pontio a Theatrau RhCT.

Rydym yn elusen gelfyddydau yn Ne Cymru sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac rydym yn chwilio am Swyddog Marchnata a Chyfathrebu creadigol i'n helpu i godi ein proffil, hybu ymgysylltiad gyda chynulleidfaoedd, ac i rannu ein stori ar draws nifer o lwyfannau.

## Manylion

Yn gyfrifol i: Cyfarwyddwr Gweithredol

Oriau gwaith: 21 awr yr wythnos

Cyflog: £25,500-£27,000 pro rata

Lwfans gwyliau: 36 diwrnod gan gynnwys Gwyliau Banc PA [pro rata]

Buddion eraill: cronfa lles personol, gweithio hybrid, oriau hyblyg

## Lleoliad:

Mae Taking Flight wedi'i leoli yng Nghaerdydd a gallwch weithio o'n swyddfa yno, ond mae cyfle hefyd i weithio o gartref/hybrid os yw'n well gennych. Os gallwch fynychu llond llaw o ddigwyddiadau pwysig bob blwyddyn, mae gweithio o bell yn sicr yn opsiwn.

## Cyfrifoldebau:

Bydd y Swyddog Marchnata a Chyfathrebu yn ymdrin â marchnata Taking Flight a phopeth cysylltiedig o ddydd i ddydd. Bydd hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:

- Sicrhau bod y Cynllun Marchnata a Chyfathrebu presennol yn gyfredol a'i wella, fel y bydd yn cyd-fynd â chynllun 5 mlynedd yr elusen ac yn gallu addasu i unrhyw newidiadau.

- Rhannu ein gwaith — gan gynnwys cynyrchiadau, allgymorth, recriwtio, codi arian, elusennau a gweithgareddau'r sector celfyddydol — drwy wahanol gyfryngau, yn sicrhau bod y llais a'r brand yn gyson. Mae hyn hefyd yn cynnwys creu asedau gan ddefnyddio Canva ac apiau eraill.

- Rhedeg cyfryngau cymdeithasol yr elusen ar draws sawl platfform — postio, gwirio ymgysylltiad, postio hysbysebion, creu cysylltiadau ar-lein newydd, a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

- Cadw'r wefan yn ffres gyda chynnwys newydd, cwblhau diweddariadau, a chynghori ar ailgynllunio neu swyddogaethau eraill.

- Gweithio gyda thimau creadigol, dylunwyr, fideograffwyr, a ffotograffwyr i gynhyrchu deunyddiau marchnata megis delweddau, taflenni print, trelars, pecynnau gwybodaeth lleoliadau, a phecynnau i'r wasg ar gyfer cynyrchiadau.

- Cydweithio â thimau marchnata lleoliadau er mwyn sicrhau bod sioeau'n cael eu marchnata'n gywir ac yn cyrraedd y cynulleidfaoedd cywir.

- Rheoli'r rhestr bostio, creu cylchlythyrau rheolaidd ac anfon diweddariadau rheolaidd er mwyn cadw mewn cysylltiad â chefnogwyr a chynulleidfaoedd.

- Ymdrin â phob perthynas gyda'r cyfryngau — ysgrifennu a rhannu datganiadau i'r wasg, sefydlu nosweithiau i'r wasg gyda'r lleoliadau, trefnu rhagolygon, adolygiadau, a sylw yn y cyfryngau. Meithrin perthnasoedd da gyda chwmnïau teledu, radio, a chyhoeddiadau print yng Nghymru a thu hwnt, ac ymgysylltu â gwefannau a chyhoeddiadau ar gyfer cymunedau byddar, anabl a niwroamrywiol.

- Mynychu cyfarfodydd cwmni, cyfarfodydd lleoliadau, a chyfarfodydd gyda phartneriaid eraill pan fo angen.

- Cysylltu'n rheolaidd â'r rheolwr llinell a chymryd rhan ym mhrosesau gwerthuso'r elusen.

- Gweithio fel rhan o'r tîm, a chynrychioli'r elusen mewn ffordd gadarnhaol.

- Helpu i werthuso prosiectau, adrodd nôl ar ymdrechion marchnata, a pharatoi adroddiadau clir a deniadol i gydfynd â chrynodebau prosiectau.

- Arwain ar y berthynas gyda'r wasg a chysylltiadau cyhoeddus, meithrin cysylltiadau, a chodi proffil yr elusen y tu mewn yn ogystal â thu allan i fyd y theatr, yn enwedig gyda grwpiau cymorth byddar/anabl.

- Bod yn barod i weithio rywfaint gyda'r nos neu y tu allan i oriau gwiath arferol, pan fo angen.

## Manyleb Person

Mae Taking Flight yn gyflogwr cynhwysol ac rydym yn annog ymgeiswyr o gymunedau ymylol yn weithredol. Y cyfan a ofynnwn yw bod gennych;

• Angerdd dros theatr a chydraddoldeb

• Profiad mewn marchnata hygyrch, cyfathrebu, neu faes cysylltiedig—yn ddelfrydol o fewn y sectorau celfyddydol, elusen, neu ddiwylliannol yng Nghymru.

• Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol, gyda dawn greadigol a sylw i fanylder.

• Gradd (Marchnata/Theatr/Astudiaethau Busnes/Saesneg/Cyfathrebu/Newyddiaduraeth neu debyg) neu brofiad sylweddol mewn rôl debyg

• Y gallu profadwy i gynllunio, creu ac amserlennu cynnwys deniadol ar gyfer cyfryngau cymdeithasol.

• Cymhwysedd mewn cynhyrchu a golygu deunyddiau printiedig gan ddefnyddio meddalwedd dylunio (e.e. Canva, Adobe InDesign, neu debyg).

• Hyder wrth feithrin perthnasoedd â'r wasg a'r cyfryngau, a'r gallu i ysgrifennu datganiadau clir, sy'n werth eu hadrodd, i'r wasg.

• Llythrennedd TG yn benodol: pecynnau MS Office (Word/Excel), e-bost, a phrofiad o Metricool a Mailchimp, neu feddalwedd debyg

• Sgiliau trefnu a rheoli amser cryf, a'r gallu i reoli nifer o brosiectau a therfynau amser.

• Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm bychan, cydweithredol.

• Hunangynhaliol ac wedi'ch cymell i weithio heb oruchwyliaeth.

Os oes gennych chi'n holl sgiliau hanfodol a gallwch chi hefyd ddangos

• Sgiliau ffotograffiaeth a/neu olygu fideo sylfaenol.

• Dealltwriaeth o, ac ymrwymiad i, gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y celfyddydau.

• Brwdfrydedd dros y celfyddydau ac ymgysylltu cymunedol.

• Agwedd hyblyg at waith, gyda'r gallu i ymdrin ag amrywiaeth o dasgau ar yr un pryd.

• Unrhyw hyfedredd mewn Iaith Arwyddion Prydain neu'r parodrwydd i ddysgu a datblygu sgiliau cyfathrebu - byddai hyn yn ddymunol.

• Y gallu i siarad Cymraeg a/neu barodrwydd i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg - byddai hyn yn ddymunol iawn.

Efallai mai chi yw'r person i ni!

## Gyda diddordeb?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am Taking Flight, am y rôl neu'r sefydliad, cysylltwch â ni yn y ffordd sydd fwyaf addas i chi, gan gynnwys fideos Iaith Arwyddion Prydain neu nodiadau llais.

Gallwch anfon e-bost atom (admin@takingflighttheatre.co.uk) neu gysylltu â ni drwy whatsapp ar 07593821172.

## I wneud cais:

Gallwch anfon eich CV a llythyr eglurhaol yn amlinellu pam y byddech chi'n ddelfrydol ar gyfer y swydd i admin@takingflighttheatre.co.uk

Gallwch hefyd anfon fideo o'ch llythyr eglurhaol a'ch CV atom yn y Gymraeg, Saesneg neu Iaith Arwyddion Prydain.

Fel canllaw, dylai eich llythyr eglurhaol fod tua dwy ochr o bapur A4.

Dyddiad cau:

Gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon eich holl fanylion atom erbyn 5pm ar 6 fis Hydref.